**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 29 Mehefin 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol:** P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Y Cynghorwyr**

| | | |
|---|---|---|
| M C Child | P R Hood-Williams | L James |
| A H Stevens | | |

**Aelodau o'r Grŵp Llywio**

| | | |
|---|---|---|
| J France | S Heard | S Hill |
| H Osborn | P Thornton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Paul Meller | Strategic Planning and Natural Environment Manager |
| Chris Lindley | Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice
Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): R Button, James Chambers, G Howe, P Jenkins, B Parry a/ac P Tucker

---

## 39 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 40 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blynyddol Partneriaeth AoHNE Gŵyr a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019 fel cofnod cywir.

## 41 Cynllun Rheoli AoHNE Gwyr - Y Newyddion diweddaraf.

Darparodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr, adroddiad diweddaru ynghylch cynnydd Cynllun Rheoli AoHNE Gŵyr.

Darparwyd manylion am gynnydd is-grŵp Cynllun Rheoli AoHNE Gŵyr a'r broses adolygu a'r amserlen a adolygwyd. Dywedwyd hefyd fod yr amserlen yn amlinellu'r broses a'r allbynnau sydd eu hangen i gael cynllun rheoli mabwysiedig a adolygwyd

erbyn mis Mawrth 2022 (5 mlynedd ers mabwysiadu'r un presennol) ar ôl rhywfaint o oedi oherwydd COVID-19. Roedd yr amserlen yn rhoi syniad bras o'r hyn a oedd yn ofynnol, prif weithgareddau'r is-grŵp ac roedd angen iddi ystyried cyfnodau ymgynghori statudol/cyhoeddus a chyfieithiad Cymraeg o'r cynlluniau drafft a therfynol.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi darparu cyfres o setiau data/ystadegau amgylcheddol hyd at ffin yr AoHNE i bob AoHNE yng Nghymru ac wedi cyhoeddi Datganiad Ardal De orllewin Cymru. Byddai'r ddau bwynt hyn yn fuddiol i'r broses o baratoi'r cynllun rheoli ac yn ddylanwadol ar hynny.

Daethpwyd i'r casgliad y byddai'r tîm AoHNE yn ysgrifennu'n ffurfiol at CNC i ddechrau'r broses adolygu (a fyddai'n cynnwys rhagor o fanylion am yr amserlen) ac y byddem hefyd yn dechrau llunio Adroddiad Cyflwr yr AoHNE.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**42 Cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Bartneriaeth Tirweddau Cenedlaethol.**

Cyflwynodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad am Gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Bartneriaeth Tirweddau Cenedlaethol (NLP).

Yn sgil adroddiad y Grŵp Llywio ym mis Rhagfyr 2019, nodwyd y dewiswyd awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gynnal tîm yr NLP, er bod gwaith i barhau â hyn wedi'i atal oherwydd pandemig COVID-19. Amlinellwyd manylion ynghylch cronfa buddsoddi cyfalaf gwerth £4.75 miliwn ar draws wyth tirwedd ddynodedig Cymru, sef y rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy. Byddai AoHNE Gŵyr yn derbyn cyfraniad o £135,000 tuag at gyflawni un o'r prosiectau cyfalaf canlynol:-

- Parc Gwledig Dyffryn Clun - gwaith cyfalaf a gwelliannau i gyfleusterau ymwelwyr, llwybrau mynediad a nodweddion treftadaeth.
- Prynu offer rheoli cefn gwlad sy'n defnyddio pŵer batri.
- Gwarchodfa Natur Leol Coed yr Esgob – gwella dulliau draenio cynaliadwy a mynediad.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Gwaith mynediad i ddarparu ar gyfer ymwelwyr ychwanegol ym Mharc Gwledig Dyffryn Clun a'r costau posib;
- Cydbwyso'r angen i ddenu rhagor o ymwelwyr a'r angen i ddiogelu'r dirwedd;
- Y problemau sy'n codi rhwng cerddwyr a beicwyr ar y llwybr beicio o fewn y Parc Gwledig a'r cynigion sy'n cael eu hystyried i wella pethau.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**43 Canllaw Dylunio AoHNE Gwyr - Diwygio'r Canllawiau Cynllunio Atodol.**

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, adroddiad a hysbysodd y grŵp llywio ynghylch diwygio'r Canllawiau Cynllunio Statudol (CCS).

Esboniwyd, yn dilyn mabwysiadau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ym mis Chwefror 2019, fod y Canllaw Dylunio wedi'i ddiweddaru a'i ehangu gan y Tîm Cynllunio Polisi, drwy weithio gyda Nathaniel Lichfield & Partners. Byddai'r rhifyn diweddaredig yn cynnwys adrannau newydd ar y canlynol:

- Cabanau
- Goleuadau
- Arwyddion hysbysebu

Disgwyliwyd y byddai ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos yn dechrau erbyn Hydref 2020, i'w fabwysiadu fel CCS a'i gyhoeddi erbyn dechrau 2021.

Byddai mabwysiadu'r arweiniad goleuo yn y Canllaw Dylunio fel CCS yn galluogi'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol i ystyried cais yr awdurdod am statws Cymuned Awyr Dywyll.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**44 Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy - Adroddiad Ariannol.**

Cyflwynodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad cyllidebol cryno o Banel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC).

Amlinellwyd bod y gyllideb CDC ar gyfer 2019/20 o £55,000 wedi'i ddynodi'n llawn, a bod yr holl arian wedi'i dalu. Cefnogwyd cyfanswm o 13 o brosiectau, gyda grantiau rhwng £150 i £12,000. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru, a byddai'n cael ei ddosbarthu i aelodau'r Grŵp Llywio yn fuan er gwybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai £100,000 oedd cyllideb CDC ar gyfer 2020/21.

Ar hyn o bryd roedd 7 prosiect wedi'u cymeradwyo gyda chyllid CDC ar gyfer 2020/21, a 2 gais i'w hystyried gan y Panel CDC ym mis Gorffennaf, a disgwylir 2 gais pellach ar hyn o bryd.

Caiff prosiectau eraill eu cyflwyno yn ystod 2020/21 i ddyrannu'r arian yn llawn.

Roedd ffigur y cronfeydd sydd wedi'u neilltuo'n cynnwys ffi reoli DASA sef £10,000 (10%).

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr arian sydd ar gael | £ 100,000 |
| Cronfeydd sydd wedi eu neilltuo | £ 43,170 |
| Cronfeydd sydd heb eu neilltuo | £ 56,830 |
| Ceisiadau sy'n cael eu hystyried gan y panel | £ 21,500 |

Ychwanegwyd nad oedd y gyllideb ar gyfer 2021/22 wedi'i chadarnhau, ond disgwylir iddi fod gwerth £55,000.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 45 Parc Gwledig Dyffryn Clun.

Cyflwynodd arweinydd tîm AoHNE Gŵyr adroddiad a oedd yn archwilio ymagwedd Cyngor Abertawe at reoli Parc Gwledig Dyffryn Clun.

Esboniwyd bod Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) presennol Abertawe, a fabwysiadwyd ym mis Chwefror 2019, yn cynnwys polisi penodol (TR4) ar gyfer Parc Gwledig Dyffryn Clun. Nododd y CDLl ffin y parc gwledig a pholisi ffurfiol y cyngor ynghylch ei ddefnydd. Cafodd Dyffryn Clun ei gydnabod yn benodol hefyd yn y CDLl fel man gwyrdd sy'n strategol bwysig ac yn elfen allweddol o Rwydwaith Isadeiledd Gwyrdd y sir.

Fodd bynnag, nid oedd gan y cyngor unrhyw amcanion rheoli na chyfrifoldeb adrannol am y parc gwledig y tu hwnt i'r polisïau CDLl hyn. Yn ogystal, ni chafwyd adolygiad o Ddyffryn Clun, y Parc Gwledig, na strategaeth neu amcanion y Cyngor ar gyfer yr ardal ers astudiaeth gynllunio 1978, a gynhaliwyd dros 40 o flynyddoedd yn ôl. Felly, gwnaed penderfyniadau rheoli gan ddilyn blaenoriaethau adrannol ar wahân ac o fewn cyfyngiadau cyllidebol.

Ychwanegwyd bod materion rheoli dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys difrod gan weithgareddau trydydd parti yn ystod cyfyngiadau COVID-19, wedi dangos bod angen gwella ymagwedd gyffredinol y cyngor at reoli'r parc gwledig. Gwnaed cynnydd felly gyda'r bwriad o ddatblygu strategaeth ar gyfer aelodau ac uwch reolwyr i ddatblygu barn glir am gyfeiriad a chyfrifoldebau yn y tymor hir.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Problemau a achosir gan feiciau mynydd a chyfrifoldeb y cyngor o ran rheolaeth uniongyrchol o'r parc gwledig;
- Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol o fewn y parc a gwella mynediad i'r cyhoedd;
- Cyfranogaeth sefydliadau partner, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth reoli'r parc gwledig.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 46 Parcio ar Gefn Bryn.

Adroddodd Steve Heard, is-gadeirydd y Grŵp Llywio, am nifer o ymholiadau yr oedd wedi'u derbyn gan breswylwyr lleol ynghylch y sefyllfa parcio yng Nghefn Bryn.

Cyfeiriodd at y newidiadau a wnaed ym mhen uchaf Cefn Bryn, yn benodol wrth leoli cerrig mawr gerllaw'r ffordd, a oedd yn atal mynediad i gerbydau i'r tir. Er bod hwn wedi bod yn fesur ataliol cadarnhaol, ychwanegodd fod rhai ymwelwyr wedi dewis

naill ai gyrru dros y byndio ar ochr y ffordd neu barcio ar yr ymyl, felly hoffai llywio cynnydd i ganfod ateb parhaol.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Cynigion ar gyfer gosod cerrig mawr mewn siâp cilgant mawr o amgylch yr ardal barcio, ymestyn yr ardal â byndiau a chreu clirffordd o Gilybion i Reynoldston;
- Sicrhau bod y byndiau'n effeithiol ac yn rhwystro mynediad i gerbydau i'r tir ym mhen uchaf Cefn Bryn ac mewn mannau eraill megis yr hen orsaf bwmpio;
- Y datrysiad arfaethedig yn cael ei gynllunio gan Adran Briffyrdd Cyngor Abertawe a'r broses ymgynghori/benderfynu i gwblhau'r datrysiad;
- Yr angen i atal gwersylla dros nos, yn enwedig mewn cartrefi symudol, a oedd yn achosi erydu difrifol ym mhen uchaf Cefn Bryn;
- Datrysiadau parcio a cherdded posib;
- Mynd i'r afael â'r erydu difrifol a'r opsiynau amgen posib o ran arwynebedd;
- Y ffaith bod y cyngor yn gyfyngedig iawn o ran yr hyn y gallai ei wneud;
- Canolbwyntio ar y broblem hon er mwyn canfod ateb sy'n ymarferol ac yn gynaliadwy;
- Y cynnydd cadarnhaol a wnaed o ran cael y gwahanol sefydliadau at ei gilydd i drafod y broblem.

Eglurwyd y gallai'r is-grŵp, a sefydlwyd i symud y mater yn ei flaen, symud materion yn eu blaen pan dderbynnir y costau ar gyfer datrysiad priffyrdd arfaethedig Cyngor Abertawe yn unig.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**47 Materion Cymdeithas Gŵyr**

Cyflwynwyd adroddiad ar ran Cymdeithas Gŵyr mewn perthynas â'r materion canlynol: -

1) Pryderon ac anghysondeb datblygiad a ganiateir am 28 diwrnod i werthu cynhyrchion mewn lleoliadau sensitif o fewn yr AoHNE ac effeithiau ar y dirwedd.

   **Penderfynwyd** trafod y eitem yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

2) Diogelu coetiroedd, coed a gwrychoedd sensitif rhag cael eu torri'n ddiwahaniaeth yn ystod cam cynharach, cyn unrhyw ddifrod posib

   Awgrymwyd y byddai cydweithio gwell a chyflymach rhwng rheolwyr yr AoHNE ac asiantaethau eraill fel CNC yn gwella'r sefyllfa a chyfeiriwyd at enghreifftiau diweddar fel coetir Carters Ford, parcdir Fairy Hill, maes Long Acre a choetir cyfagos yn ardal Caswell.

   Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y canlynol: -

   - Materion ynghylch symud coed, megis cael trwydded cwympo coed;
   - Sefyllfaoedd lle nad oedd angen trwydded cwympo coed;

- Symud coed yn anghyfreithlon/gyfreithlon yn ystod y tymor nythu;
- Y sancsiynau dan sylw, yn enwedig ynghylch Gorchmynion Cadw Coed;
- Enghreifftiau a awgrymwyd â thrwyddedau/nad oedd ganddynt drwyddedau;
- Sut y gallai ymateb yn gyflymach atal coed rhag cael eu symud.

**Penderfynwyd** trafod y eitem yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

3) Derbyniodd y cyngor ei gais cyntaf yn yr AoHNE am fenter Un Blaned a oedd yn cynnwys dwy annedd bosib. Ar hyn o bryd, gallai'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ganiatáu hyn, ond pe bai hwn yn cael ei gymeradwyo, ble fydd y ffin? Fe'i heithriwyd yn wreiddiol yn nrafft terfynol y CDLl ond fe'i newidiwyd yn y fersiwn derfynol a gymeradwywyd.

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem gan ei bod yn gais cynllunio byw.

**48 Cyfyngiadau COVID-19 ac Ymddygiad Ymwelwyr.**

Cyflwynwyd adroddiad ar ran James Chambers a Roger Button ynglŷn â chyfyngiadau COVID-19 ac ymddygiad ymwelwyr.

Amlinellwyd bod Gŵyr fel lle chwarae i'r rhai oedd eisiau mynd allan wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio ac anawsterau â mynd ar wyliau dramor oherwydd mesurau cwarantin a diffyg rheolaethau lleol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae pobl wedi taflu swm sylweddol o sbwriel i wrychoedd a thraethau yn ardal Gŵyr, ac wedi parcio yno'n ddifeddwl a gadael carthion yn gyhoeddus, yn enwedig lle'r oedd meysydd parcio ar agor ond roedd toiledau ar gau. Y bobl o’r tu allan i’r ardal oedd yn gyfrifol am hyn yn bennaf, yn groes i gyfyngiadau teithio'r pandemig, a oedd wedi cynyddu'r risg o groesheintio/halogi a llai o fynediad ar gyfer ymatebwyr brys i gymunedau lleol.

Ceisiwyd rhoi mesurau ar waith a fyddai'n helpu i gyfyngu ar y difrod a'r fandaliaeth bosib o'r amgylchedd yn yr AoHNE ac i wella diogelwch ei chymunedau yn ystod y cyfnod lle mae'r pandemig ar led.

Roedd y trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Y ffaith bod rhai toiledau cyhoeddus wedi ailagor, sy'n lleddfu rhai o'r materion a godwyd;
- Yr angen am well rheolaeth a phlismona i atal sefyllfaoedd tebyg i'r rheini a ddigwyddodd ym Mae Langland;
- Defnyddio gorfodi pan fydd unigolion yn mynd gam yn rhy bell;
- Yr anhawster o ran agor toiledau cyhoeddus/atal lledaeniad pellach COVID-19;
- Mynd i'r afael â'r ymwelwyr niferus â safleoedd penodol ym mhenrhyn Gŵyr yn ystod y cyfnod, yr oedd rhai ohonynt wedi teithio pellteroedd hir, a'r anhawster wrth plismona eu symudiadau.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.15 pm

**Chair**